Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF

Ian Barrow
Cyfarwyddwr Gweithredol Ardal
HMPPS Cymru a CAS
Tŷ Churchill
Caerdydd
Cymru
CF10 4HH

Martin Jones
Prif Arolygydd Prawf EF
1st Floor, Manchester Civil Justice Centre,
1 Bridge Street West,
Manchester
M3 3FX

27 Tachwedd 2025

Annwyl Martin,

**Adroddiadau'r Arolygwr Prawf ar arolygu Uned Cyflawni Prawf Gwent - Rhanbarth Cymru - Medi 2025**

Diolch i chi am eich adroddiadau arolygu Uned Gyflawni Gwent, lle bu i chi wneud cyfanswm o chwe argymhelliad.

O ran yr argymhellion, gallaf gadarnhau fod pob un wedi'i ystyried yn ofalus a, chyda chymorth y Cyfarwyddwr Prawf Rhanbarthol, bydd Penaethiaid yr Uned Gyflawni'n sicrhau y byddir yn cymryd camau i roi sylw iddynt, fel bo'n briodol. Bydd hyn yn cynnwys:

- Cyflwyno Archwiliadau Cadw Pobl yn Ddiogel fel rhan o'n dull gweithredu Sicrwydd Haen 1, cryfhau safonau a disgwyliadau gwaith i asesu, rheoli ac adolygu risg o niwed.
- Cyflwyno ffurflenni canllawiau a rhannu gwybodaeth diwygiedig ar y cyd gyda'r Heddlu a'r Gwasanaethau Plant i wella ansawdd a chysondeb cyfnewid gwybodaeth i lywio asesiadau a chynlluniau rheoli risg.
- Gweithredu fframwaith rhanbarthol i gynllunio a chyflawni ymyrraeth, gan sicrhau fod gan yr holl bobl ar brawf fynediad at ymyrraethau amserol a ysgogir gan angen sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ac sy'n gymorth gydag ymatal a lleihau aildroseddu.
- Lansio'r pecyn Chwilfrydedd Proffesiynol mewn Ymarfer i ddatblygu hyder a gallu ymarferwyr i ddadansoddi, asesu ac ymateb i risg yn effeithiol.

Er yn cydnabod bod llawer o waith i'w wneud eto yn Uned Gyflawni Gwent, rwyf wedi fy nghalonogi yr adroddwyd ar ganlyniadau cadarnhaol a nodaf fel a ganlyn:

- Mae Staff ar draws Gwent wedi dangos ymrwymiad a phroffesiynoldeb eithriadol, gan gynnal ysgogiad a phwrpas er gwaethaf llwyth gwaith a phwysau staffio sylweddol.
- Bu i arolygwyr adnabod newid mewn diwylliant trefniadaethol, gyda staff yn teimlo eu bod yn fwy o ran o gyfeiriad ac ymatebolrwydd y tîm arweinyddiaeth ac yn hyderus ynddynt.

- Nododd yr arolwg gysylltiadau clir rhwng cynllun busnes yr Uned Gyflawni a gweithgarwch gweithredol, gan alluogi cydlyniant dyddiol, adleoli a lliniaru risg oedd yn gymorth wrth gael mwy o ymwneud a gwaith cynllunio â phobl ar brawf.
- Gwelwyd bod ymarferwyr yn fedrus wrth greu perthnasoedd, gan fod yn hyblyg wrth ddwyn i mewn unigolion a chynorthwyo cynnydd ystyrlon yn eu goruchwyliaeth.

Rwy'n parhau i fod wedi ymrwymo i sicrhau cynnydd yn erbyn argymhellion yr Arolygwr Prawf a gallaf eich sicrhau, trwy fy swyddogaethau sicrwydd gweithredol a chefnogaeth y Grŵp Perfformiad, Sicrwydd a Risg, y byddwn yn parhau i fonitro cynnydd yn agos, yn unol â'ch canfyddiadau.

Yn gywir

Ian Barrow
Cyfarwyddwr Gweithredol Ardal HMPPS Cymru

CC: Swyddfa Breifat
Kim Thornden-Edwards, Prif Swyddog Prawf yr HMPPS
Nicola Davies, Cyfarwyddwr Prawf Rhanbarthol, Cymru